Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board



# Cynllun Strategol 2026/2029

## Blwyddyn 1 – 2026/27

| Tabl Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| RHAGAIR GAN GADEIRYDD BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG | 3 |
| DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG | 4-6 |
| BETH YW EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL AR GYFER Y FLWYDDYN NESAF? | 7 |
| 1. Rydyn ni wedi *sefydlu* ble rydyn ni arni a ble rydym ni eisiau bod. | 8-15 |
| 2. Rydyn ni wedi *dysgu* drwy fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf a chytuno sut mae modd i ni fel Bwrdd wneud gwahaniaeth i arferion diogelu. | 15-17 |
| 3. Rydyn ni wedi cytuno ar sut mae modd i ni'r Bwrdd *ddatblygu* er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella. | 18-24 |
| Â PHWY YDYN NI'N BWRIADU CYDWEITHIO I GYFLAWNI EIN HAMCANION? | 24-25 |
| EIN CYLLIDEB | 25 |
| OES GYDA CHI BRYDERON AM RYWUN? | 26-27 |
| ATODIAD 1 – AELODAU'R BWRDD | 28-30 |
| ATODIAD 2 – STRWYTHUR Y BWRDD | 31 |

# RHAGAIR GAN GADEIRYDD BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG

***Dyma Gynllun Strategol 3 blynedd newydd ein Bwrdd. Ynddo mae blaenoriaethau'r Bwrdd Diogelu ar gyfer 2026 hyd at 2029 yn cael eu nodi, felly hefyd ein blaenoriaethau ar gyfer Blwyddyn 1, sef 2026/27.***

Yn y Cynllun yma, mae'r canlynol yn cael ei nodi; yr hyn y bydd y Bwrdd yn canolbwyntio arno dros y 12 mis nesaf wrth i ni barhau â'n nod o ofalu bod pobl Cwm Taf Morgannwg yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.

Fe fu i Aelodau'r Bwrdd gyfarfod ar ein Diwrnod Datblygu blynyddol fis Mawrth 2026; fe fyfyrion ni ar y flwyddyn ddiwethaf ac adolygu'r meysydd blaenoriaeth, allweddol, y mae angen i ni ganolbwyntio arnyn nhw dros y flwyddyn i ddod. Er bod y Bwrdd Diogelu wedi ymrwymo i ddatblygu'r meysydd blaenoriaeth sydd yn y Cynllun yma, rydyn ni hefyd yn cydnabod bod diogelu o fewn ein Cymunedau ac yn y byd o'n cwmpas yn newid yn gyflym, yn enwedig mewn mannau ar-lein ac yn natblygiad parhaus Deallusrwydd Artiffisial (AI). Felly, rydyn ni, aelodau'r Bwrdd, yn cydnabod yr heriau rydyn ni'n eu hwynebu wrth gyflawni gwelliannau mesuradwy, ar gyflymder digonol, o ran arferion diogelu, o bob agwedd, ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o niwed neu sy'n profi niwed yn ein cymunedau lleol.

Mae ein blaenoriaethau'n cael eu nodi ar sail canlyniadau dysgu ar lefel leol a chenedlaethol; digwydd hyn drwy drin a thrafod arfer da a thrwy ddadansoddi materion diogelu cyffredin a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ein rhanbarth. Yn sail i'r blaenoriaethau yma, fel bob amser, mae'r angen i sicrhau bod ein staff yn cael y cymorth priodol i gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid hefyd sicrhau bod hybu lles staff yn amcan craidd i'r holl asiantaethau partner. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y galw ar wasanaethau ac felly ein staff yn parhau i gynyddu'n flynyddol.

Eleni rydyn ni'n rhoi cryn sylw i'n hymrwymiad o ran hyrwyddo rhagor o gyfleoedd i bobl ymgysylltu'n â'n gwaith. Byddem yn wirioneddol groesawu unrhyw un sydd â phrofiad bywyd o ddiogelu, neu'r sawl sy'n rhan o wasanaethau cymorth ac eiriolaeth, petaen nhw am ymgysylltu â'r Bwrdd. Os oes gyda chi ddiddordeb mewn gwneud hynny, cysylltwch â'n Huned Fusnes Bwrdd Diogelu Rhanbarthol drwy DiogeluCTM@rctcbc.gov.uk. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y Bwrdd Diogelu ar gael yn www.ctmsb.co.uk





**Lisa Curtis-Jones, Cadeirydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg**

# 1. DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG

Mae ardal Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf lle mae 442,000 o drigolion.[1]

Mae **Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg** yn bartneriaeth statudol ag asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gan asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu drefniadau effeithiol ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl o bob oed yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn golygu atal achosion o gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni ei amcanion yn unol â'r canllawiau statudol cenedlaethol sydd wedi'u nodi yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddeddfwriaeth yma'n darparu'r fframwaith ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru sy'n gefn i waith ymarferwyr o gymhwyso'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol. Nod y gwaith yma yw gwella deilliannau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i blant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Fe gytunodd y Bwrdd eleni i barhau â'n dwy flaenoriaeth **diogelu** trosfwaol sef **amddiffyn** ac **atal**; bydd y rhain yn sail o hyd i waith y Bwrdd dros y 3 blynedd nesaf ac yn llywio'r cyfeiriad strategol ar gyfer ein Cynllun newydd ar gyfer 2026-2029.

***Mae pawb yn gyfrifol am gadw plant ac oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel. Mae gan bob asiantaeth ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw amheuon o gam-drin ac/neu esgeulustod.***

## Beth yw Cam-drin ac Esgeulustod?

- Mae cam-drin yn gallu golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.
- Mae'r term esgeuluso yn golygu peidio â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a seicolegol sylfaenol yr unigolyn, sy'n debygol o amharu ar ei les.

[1] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Cyfrifiad 2021)

## Pwy yw Aelodau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?

Mae aelodaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae'r isod ymhlith yr aelodau:

- Y tri Awdurdod Lleol yn y rhanbarth:
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Prif Swyddog yr Heddlu
- Y Bwrdd Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth y GIG
- Y Gwasanaeth Prawf
- Carchar y Parc EF
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Prif Bartner Arweiniol y Bwrdd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n cynnal Uned Fusnes y Bwrdd ac yn rheoli cyllideb y Bwrdd.

Mae rhestr o aelodau wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

## Hybiau Diogelu Amlasiantaeth

Mae yna ddau Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg sy'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd, sef:

**Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) a Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr.**

Bwriad yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yw bod yn bwynt cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol i roi gwybod am unrhyw bryderon am ddiogelwch. Mae'r Hwb yn darparu cyfle ar gyfer diogelu o safon uwch trwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Mae modd i weithwyr proffesiynol ddefnyddio'r wybodaeth yma i wneud gwell penderfyniadau. Mae hyn yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu'n effeithiol rhwng asiantaethau, gan helpu i ddiogelu plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Mae Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio model Hwb Diogelu Amlasiantaeth ar sail cyd-leoli yn y Ganolfan Ddinesig. Bydd Hwb Diogelu Cwm Taf yn symud, eleni, o'i safle presennol yng Ngorsaf Heddlu Pontypridd i leoliad newydd ar safle Heddlu De Cymru yn Nhŷ Trevithick, Rhondda Cynon Taf. Bydd Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yn parhau i gynnal elfen waith hybrid ar gyfer ei asiantaethau partner ond gan wneud hynny â gwell model gweithredu yn y safle newydd.

## Beth yw Swyddogaethau Craidd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?

Mae gan bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyfrifoldeb statudol i gyflawni swyddogaethau craidd yn ymwneud â diogelu amlasiantaeth yn unol ag Adran 135 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cymru) 2015. Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni'r swyddogaethau dydd i ddydd yma drwy ystod o is-grwpiau sy'n rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd ac yn adrodd iddo (gweler Atodiad 2). Mae'r canlynol ymhlith y swyddogaethau dydd i ddydd:

- Cyfrannu at waith datblygu, gweithredu a monitro protocolau a gweithdrefnau ar gyfer partneriaid sy'n helpu i ddiogelu oedolion a phlant ac i'w hatal rhag cael eu cam-drin
- Codi ymwybyddiaeth o amcanion y Bwrdd i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, a'u hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill, a darparu gwybodaeth am sut mae modd cyflawni hyn
- Adolygu effeithiolrwydd mesurau wedi'u cymryd gan asiantaethau i weithredu amcanion y Bwrdd, gwneud argymhellion a'u monitro
- Cynnal Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl Adolygiad Diogelu Unedig Sengl | LLYW.CYMRU, archwiliadau, ymchwiliadau ac adolygiadau eraill yn ôl yr angen er mwyn cyflawni ei amcanion a rhannu dysgu a gwybodaeth sy'n deillio o'r adolygiadau yma â'r nod o wella arfer a gwasanaethau
- Adolygu cyflawniad y Bwrdd a'i bartneriaid wrth iddyn nhw gyflawni eu hamcanion
- Hwyluso gwaith ymchwil i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac ymchwilio er mwyn atal hynny rhag digwydd
- Adolygu anghenion hyfforddi ymarferwyr sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd er mwyn pennu hyfforddiant i helpu i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac i atal hynny rhag digwydd.

## 2. BETH YW EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL AR GYFER Y FLWYDDYN NESAF?

Mae dau ffocws gan y Byrddau Diogelu:

- **Amddiffyn plant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill**

- **Atal plant ac oedolion rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill**

Y ddwy flaenoriaeth allweddol yma oedd yr ysgogiadau strategol ar gyfer gwaith y Bwrdd o ran ein Cynllun Strategol cychwynnol 2023-26; fe fyddan nhw'n parhau yn ein Cynllun Strategol newydd 2026-29. Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau trosfwaol yma, rydyn ni wedi gweithio gyda'r egwyddorion canlynol, a byddwn yn parhau i wneud hynny eleni – mae hyn yn rhoi mecanwaith cyson inni adolygu'r hyn rydym wedi'i wneud, yr hyn sydd ar ôl i'w wneud a'r hyn sydd angen i ni ei wneud i barhau i wella bob blwyddyn…………

1. **Rydyn ni'n *sefydlu* ble rydyn ni arni a ble mae angen inni fod**
2. **Rydyn ni'n *dysgu* drwy fyfyrio ar y gwaith rydyn ni wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn cytuno ar sut mae modd i ni fel Bwrdd wneud gwahaniaeth i arferion diogelu yn y dyfodol**
3. **Rydyn ni'n cytuno ar sut mae modd i ni *ddatblygu* fel Bwrdd i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella**

***Yn y tabl isod mae trosolwg o'r hyn y mae'r Bwrdd yn bwriadu ei wneud i gyflawni ei flaenoriaethau yn y tair blynedd nesaf.***

Bydd cynllun gwaith manwl ar gyfer Is-grwpiau'r Bwrdd islaw hynny. Yn y cynlluniau yma bydd camau gweithredu penodol yn cael eu nodi at ddibenion cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol, amserlenni a mesurau llwyddiant. Bydd cynnydd y cynlluniau gwaith yma'n cael ei fonitro a'i adolygu drwy gydol y flwyddyn gan Grŵp Cynllunio Strategol y Bwrdd; bydd hyn yn sail i'n Hadroddiadau Blynyddol.

| THEMA 1: Sefydlu ble rydyn ni arni ar ddechrau pob blwyddyn a ble rydym ni eisiau bod | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Disgrifiad** | **Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud?** | **Sut byddwn ni'n mesur cynnydd?** |
| **Cynyddu ymwybyddiaeth, yn barhaus, o gam-drin ac/neu esgeuluso a sut mae ymateb yn effeithiol er mwyn diogelu'r sawl sydd mewn perygl** | Er mwyn diogelu rhag cam-drin ac esgeuluso, a'i atal, mae swyddogaeth y Bwrdd o ran codi ymwybyddiaeth o gam-drin ac/neu esgeulusto yn amcan allweddol y mae angen canolbwyntio'n barhaus arno. | Bydd y Bwrdd yn parhau i oruchwylio'r blaenoriaethau gwaith canlynol yn ystod 2026/27:<br>▪ Sicrhau lefelau ymwybyddiaeth uchaf posibl ymhlith y cyhoedd, ynghylch diogelu, a hyrwyddo hyn, ar lefel ranbarthol ac yn unol ag Ymgyrchoedd cenedlaethol. Yn yr ymgyrchoedd yma, bydd sylw'n cael ei roi i gynnwys ar hyd ystod y sbectrwm diogelu oedolion a phlant gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: camfanteisio, seiberddiogelu a defnyddio technoleg yn ddiogel, oedolion sy'n wynebu perygl, camfanteisio'n rhywiol ar blant, pobl hŷn, gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac atal, a, dysgu o adolygiadau diogelu.<br>▪ Codi'r proffil, yn sylweddol felly, o ran risgiau seiberddiogelwch gan | Nodi mesurau at ddibenion cofnodi cyrhaeddiad a graddfa gweithgaredd hyrwyddo yn gywir. Defnyddio adroddiadau ymgysylltu cyfryngau cymdeithasol gan bartneriaid diogelu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac yn ymwneud â llwyfannau ar-lein y Bwrdd ei hun. Monitro: nifer y bobl sy'n manteisio ar achlysuron a meysydd gwasanaeth, a, lefelau atgyfeirio.<br><br>Creu adnodd digidol y mae modd i'r Bwrdd a'i asiantaethau partner, ei hyrwyddo<br><br>Creu hwb gwybodaeth “Seiberddiogelwch” ar wefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, a fydd yn cael ei hyrwyddo drwy ein cyfryngau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddefnyddio Is-grŵp Ymgysylltu a Dysgu'r Bwrdd.<br>▪ Nodi adnoddau presennol y mae modd iddyn nhw fod yn gymorth o ran cadw pobl yn ddiogel "ar-lein", a'u hyrwyddo'n eang.<br>▪ Defnyddio deallusrwydd artiffisial priodol i ddatblygu cynnwys ymwybyddiaeth ynghylch diogelu, pwerus, mewn fformat sy'n sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf posibl â'r gynulleidfa ar hyd ystod pob demograffeg.<br>▪ Targedu poblogaethau sydd mewn perygl o fathau penodol o niwed yn ein cymunedau e.e. y rhai sy'n agored i niwed o ran camfanteisio, gan geisio eu hysbysu'n well ynghylch yr opsiynau ar gyfer lleihau niwed a chymorth priodol gan ddefnyddio cyfryngau cyfathrebu sy'n berthnasol ac yn hygyrch iddyn nhw.<br>▪ Chwilio am gyfleoedd i "foderneiddio" ein dull o godi ymwybyddiaeth ynghylch | cymdeithasol. Bydd asiantaethau partner yn hyrwyddo dolen yr hwb.<br>Bydd adnoddau hyrwyddo yn amlwg ledled y rhanbarth, ac, mewn achosion pan fydd y rhain yn cael eu hyrwyddo ar-lein, bydd data ymgysylltu ar-lein yn atgyfnerthu rhagor o ddefnyddio.<br>Bydd Grŵp Ymgysylltu a Dysgu'r Bwrdd yn atgyfnerthu gweithgareddau, a bydd mesurau effaith yn cael eu nodi. Yna bydd adroddiadau yn cael eu gwneud yn erbyn y rhain.<br>Bydd partneriaethau newydd yn cael eu sefydlu. Bydd cyfleoedd yn cael eu sicrhau ar gyfer ymgysylltu â phobl proffil uchel y mae modd iddyn nhw fod yn gymorth o ran gwaith diogelu'r Bwrdd.<br>Bydd sesiynau dysgu ar-lein yn cael eu creu, eu canfod o ffynonellau eraill, eu cyflwyno a'u gwerthuso. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | diogelu. Chwilio am opsiynau ar gyfer defnyddio "dylanwadwyr" ar-lein priodol. Mynd ar drywydd cysylltiadau cryfach â chyrff anstatudol y byddai modd iddyn nhw ein helpu i ddatblygu'r cyfleoedd yma e.e. sefydliadau Chwaraeon Cenedlaethol<br><br>▪ Rhaglen gyson o achlysuron dysgu ar-lein, byr, ar gyfer Ymarferwyr. Bydd y rhaglen yn fodd cyson o gyflwyno – "*hanfodion*" dysgu ac arfer da ar gyfer diogelu effeithiol – sy'n deillio o argymhellion ddaeth i'r amlwg yn yr Adolygiad Diogelu Sengl a diweddariadau gwella cenedlaethol e.e. "*rhannu gwybodaeth yn effeithiol, chwilfrydedd proffesiynol, partneriaethau effeithiol, deall rheolaeth drwy orfodaeth* | |
| **Gwella Gweithio mewn Partneriaeth rhwng sefydliadau a'r cyhoedd** | Mae gweithio mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid yn hanfodol i feithrin cydweithio effeithiol er mwyn diogelu ein cymunedau. | Byddwn yn parhau i adolygu ein cysylltiadau â phartneriaethau presennol ac yn datblygu partneriaethau newydd y bydd modd iddyn nhw fod yn gymorth o ran blaenoriaethau diogelu'r Bwrdd. Byddwn yn ceisio defnyddio dulliau newydd o weithio yn y modd gorau posibl, gan gynnwys gyda Sefydliadau anstatudol y bydd modd iddyn nhw ein helpu i hyrwyddo gwaith y Bwrdd a bod yn gymorth o ran ymgysylltu mwy effeithiol â'n cymunedau. | Byddwn yn parhau i ddefnyddio cynnwys rhanddeiliaid, a'i hyrwyddo, gan gynnwys gweithdai ymarferwyr, sesiynau gwybodaeth rhithwir a sesiynau gwybodaeth 7 munud ond hefyd yn creu rhagor o gynnwys arloesol a diddorol ar gyfer y bobl yn ein cymunedau. Bydd hyn yn cael ei ddangos drwy'r twf yn yr adnoddau y bydd y Bwrdd yn eu creu; bydd y rhain ar gael ar ffurf fformatau hyrwyddo, ar-lein, a chopïau caled.<br><br>Byddwn yn rhannu gwybodaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o asiantaethau statudol a gwirfoddol, a, cheisio cyfleoedd cydweithio pellach â nhw, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol. Byddwn hefyd yn trin a thrafod sut mae modd datblygu gwell cysylltiadau partneriaeth â'r canlynol, at ddibenion codi proffil y Bwrdd, hyrwyddo ei flaenoriaethau craidd a cheisio eu cymorth i gyflawni'r blaenoriaethau hynny:<br>▪ Cysylltiad mwy uniongyrchol â'n hysgolion, colegau a phrifysgolion<br>▪ Sefydliadau Chwaraeon lleol a chenedlaethol ar hyd ystod o fathau o chwaraeon<br>▪ Sefydliadau Diogelu Cenedlaethol gan gynnwys yr NSPCC a chanolfan Centre of Expertise on Child Sexual Abuse.<br><br>Byddwn yn defnyddio'r rhain i helpu'r Bwrdd i wella ei ymwneud â'r cyhoedd a gyda'r sawl sydd â phrofiad bywyd o waith y Bwrdd, a hynny at ddibenion ysgogi gwelliannau o ran gweithgaredd a chanlyniadau diogelu. | berthnasol, sy'n atgyfnerthu canlyniadau cydweithio gwell, gyda rhanddeiliaid allweddol. Byddwn ar yr un pryd yn ceisio rhagor o gymorth gan ystod ehangach o bartneriaid diogelu a fydd yn gymorth o ran helpu'r Bwrdd i godi ei broffil er mwyn diogelu plant ac oedolion yn effeithiol.<br><br>Bydd modd i ni ddangos tystiolaeth glir o ragor o gyfranogiad o du'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a'r sawl sydd â phrofiad personol, yn ein canlyniadau gwaith a'n mecanweithiau adrodd; byddwn ni wedi datblygu model cynaliadwy a chadarn at ddibenion cynnwys y rhain yn gyson ym mlaenoriaethau gwaith y Bwrdd. |
| **Gweithlu** | Mae pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn ein | Ein nod yw bod yn gefn i'n gweithlu rhanddeiliaid drwy ddarparu hyfforddiant | Bydd Cofrestr Risg y Bwrdd yn dangos pwysau sy'n peri pryder i randdeiliaid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hasiantaethau partner yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod cymorth ar gael iddyn nhw, a'u bod yn cael yr wybodaeth sydd eu hangen arnyn nhw er gwaethaf y pwysau a'r galw parhaus ar ein gwasanaethau. | amlasiantaeth, adnoddau gwybodaeth a chanllawiau priodol er mwyn gwella gwybodaeth ymarferwyr ac atgyfnerthu proses waith diogelu effeithiol. Bydd y canlynol yn rhan o hyn:<br>▪ Asiantaethau'n defnyddio Cofrestr Risg y Bwrdd i dynnu sylw at unrhyw bwysau neu alw sylweddol ar y gweithlu.<br>▪ Codi ymwybyddiaeth ynghylch sut mae modd i unigolion wella eu llesiant eu hunain, a, hyrwyddo sut y mae modd iddyn nhw gael mynediad at gymorth ychwanegol pan fydd ei angen arnyn nhw.<br>▪ Annog sesiynau gwybodaeth i staff gydag uwch arweinwyr<br>▪ Defnyddio Sesiynau Gwybodaeth 7 Munud a gwefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i hyrwyddo'r opsiynau cymorth sydd ar gael i staff, a, hyrwyddo ynghylch y darparwyr cymorth perthnasol sy'n gweithredu ym maes arfer staff.<br>▪ Y Bwrdd yn darparu adnoddau hyfforddiant a gwybodaeth, priodol, er mwyn atgyfnerthu gwelliannau o ran gwybodaeth ac arfer<br>▪ Annog perthnasoedd a diwylliant parchus rhwng asiantaethau. Bydd adolygiad o Bolisi Pryderon Ynghylch Arfer Diogelu | allweddol, o ran y gweithlu, a'r camau gweithredu angenrheidiol ar gyfer lliniaru'r rhain.<br><br>Hyfforddiant ac adnoddau sydd wedi'u creu, ac ar gael, yn cael eu nodi yn allbynnau Is-grŵp Ymgysylltu, Dysgu a Chyfathrebu, a Phrotocolau a Gweithdrefnau, y Bwrdd.<br><br>Mae Polisi Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol diwygiedig wedi'i gwblhau.<br><br>Gwell canllawiau ar gyfer Swyddogion Penodedig yr Awdurdod Lleol / |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Bwrdd yn dwyn i ystyriaeth y modd y gall fod yn gymorth â'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau gan gydnabod y gofynion sylweddol o ran gwasanaethau sydd ar weithluoedd diogelu sy'n gweithredu yn y dalgylch. | Rhyngasiantaethol, y Bwrdd, yn cael ei gwblhau eleni, Yn sgil hyn, bydd rhagor o sylw'n cael ei roi i berthnasoedd a chydweithio rhyngasiantaethol effeithiol at ddibenion datrys materion sy'n peri pryder.<br>▪ Yn unol â dysgu perthnasol o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl ac yn unol â Chanllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â "*Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth* (Adran 5 Cynlluniau Goruchwylio Cymru), byddwn yn anelu at greu canllawiau yn unol â Pholisi Cwynion y Bwrdd. Byddwn yn rhoi proses sydd wedi'i chytuno arni ar waith at ddibenion craffu manylach ar atgyfeiriadau; bydd hyn yn ei dro'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod gweithdrefnau Adran 5 yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn briodol ledled y rhanbarth.<br>▪ Annog asiantaethau i barhau i rannu canlyniadau arfer da a straeon "llwyddiant" gan ddefnyddio Grwpiau is-strwythur y Bwrdd a thrwy rannu diweddariadau perthnasol ar wefan y Bwrdd ac yn ei Fwletinau chwarterol. | Swyddogion Diogelu Penodedig ac ymarferwyr yr Awdurdod Lleol. Byddwn yn cytuno ar fesurau adrodd ar ganlyniadau.<br><br>Bydd astudiaethau achos Panel Sicrwydd Ansawdd Plant ac Oedolion yn tystio i arfer da. Bydd y rhain yn cael eu rhannu drwy adnoddau eraill y Bwrdd.<br><br>Bydd gyda'r Bwrdd y gallu i gyflawni ei flaenoriaethau gwaith wrth roi cymorth i'w randdeiliaid allweddol o ran y galw ar y gweithlu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Grŵp Cynllunio Strategol y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r gofyn sydd ar y gweithlu, neu'r heriau y mae'n eu hwynebu, sy'n effeithio ar ffrydiau gwaith y Bwrdd. Lle bo angen, bydd hyn yn fodd o ddarparu canllawiau strategol at ddibenion blaenoriaethu gweithgareddau llif gwaith. | |
| **Rheoli Risgiau gan gynnwys Pwysau ar Staff a Gwasanaethau** | Fe ddiwygiodd y Bwrdd fformat ei Gofrestr Risg yn ystod 2025/26.<br><br>Bydd y Bwrdd yn atgyfnerthu goruchwylio cadarn o ran y Gofrestr Risg gan sicrhau bod risgiau diogelu sy'n cael eu nodi'n cael eu lliniaru'n effeithiol.<br><br>Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r Gofrestr i "gadw llygad am beryglon neu fygythiadau newydd" o ran meysydd risg sy'n dod i'r amlwg ac yn llunio cynlluniau at ddibenion lleihau unrhyw risgiau sy'n cael eu nodi. | Rhaid craffu mewn modd cynhwysfawr ar Gofrestr Risg y Bwrdd, a rhaid iddi gael ei diweddaru bob Chwarter er mwyn:<br><br>▪ Nodi'r risgiau o ran y Bwrdd Diogelu a'i weithgareddau diogelu<br>▪ Neilltuo perchnogaeth dros y risgiau yma<br>▪ Nodi'r camau gweithredu angenrheidiol er mwyn lliniaru'r risgiau yma<br>▪ Bydd dylanwadau byd-eang y byddai modd iddyn nhw effeithio ar gydlyniant cymunedol ac effeithio ar risgiau cynyddol o ran diogelu mewn cymunedau, yn rhan o hyn | Bydd Grŵp Cynllunio Strategol y Bwrdd yn monitro'r Gofrestr Risgiau er mwyn gofalu bod risgiau'n cael eu rheoli, eu lleihau ac/neu eu dileu. Bydd cofnod gweithredu clir o ddiweddariadau o ran y Gofrestr, yn adlewyrchu hyn.<br><br>Pan fydd unrhyw risg critigol yn codi yn ystod y flwyddyn, bydd y Grŵp Cynllunio Strategol yn ymgynnull ar unwaith i gytuno ar gamau lliniaru i leihau neu ddileu'r risg dan sylw.<br><br>Bydd y Bwrdd yn rhoi diweddariadau amserol er mwyn llywio'r Gofrestr Risg lle bo'n briodol. Bydd y Bwrdd a/neu'r Grŵp Cynllunio Strategol yn cael eu diweddaru mewn amser real. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru pan fo heriau o ran pwysau ar staff a'r gwasanaeth neu pan mae disgwyl i'r rhain godi; mae hefyd yn cael sicrwydd bod ein hasiantaethau partner yn mynd i'r afael â'r rhain yn ddigonol. | Mae rhaid i asiantaethau partner y Bwrdd sicrhau bod y Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol sy'n peri pryder, mewn modd amserol; felly hefyd o ran rhoi sicrwydd bod mynd i'r afael â'r materion dan sylw, ar waith.<br><br>Rhaid trin a thrafod unrhyw risg critigol o ran a oes angen diweddaru Cofrestr Risg y Bwrdd.<br><br>Bydd y Bwrdd yn herio yn briodol ac yn rhoi cymorth priodol o ran datrysiadau lle y bo'n addas. | |
| **THEMA 2: DYSGU – Myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella arferion diogelu** | | | |
| **Maes Blaenoriaeth** | **Cyd-destun** | **Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud?** | **Dyma'r modd y byddwn ni'n mesur cynnydd** |
| **Fframwaith Dysgu** | Yn 2026/2027 mae gofyn i'r Bwrdd gytuno ar Fframwaith Dysgu a Gwella newydd. Ynddo bydd manylion ynghylch y modd y byddwn ni'n nodi dysgu, ei rannu a'i weithredu at ddibenion gwella arferion diogelu.<br><br>Mae gofyn i hyn atgyfnerthu cylch dysgu a gwella parhaus. Bydd gofyn i'r cylch yma fod yn fodd o ddangos diweddariadau o ran dysgu ac arfer da, yn | **Bydd y Bwrdd, ei asiantaethau partner a rhanddeiliaid eraill yn:**<br>▪ Cytuno ar Fframwaith Dysgu a Gwella wedi'i adnewyddu 2026/27<br>▪ Nodi diweddariadau ynghylch arfer da sy'n berthnasol i'w hasiantaeth neu asiantaethau partner y Bwrdd, a'u hargymell<br>▪ Monitro argymhellion a chynlluniau gweithredu sy'n codi o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl<br>▪ Rhannu canlyniadau dysgu o weithgareddau archwilio drwy Baneli Sicrwydd Ansawdd y Bwrdd | Byddwn ni'n defnyddio ystod o wahanol ddulliau i fesur cynnydd gan gynnwys:<br>▪ Cwblhau Cynllun Hyfforddi Blynyddol y Bwrdd dan oruchwyliaeth Is-grŵp Ymgysylltu, Dysgu a Chyfathrebu'r Bwrdd<br>▪ Diweddaru a monitro Cynlluniau Gweithredu Gwella Oedolion a Phlant, yn effeithiol, yn dilyn argymhellion o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl trwy Grŵp Gwella Arfer y Bwrdd<br>▪ Darparu cyfleoedd i rannu ein |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | effeithlon ac yn amserol. Mae hyn at ddibenion bod yn gymorth o ran gwella effeithiolrwydd mewn gweithgareddau diogelu wrth iddyn nhw gael eu nodi. | **Byddwn yn gofalu ein bod yn trin a thrafod dysgu ychwanegol gan eraill drwy:**<br>▪ Defnyddio Cronfa Ddiogelu Cymru Gyfan: Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl i gadw'n gyfredol o ran argymhellion diogelu cenedlaethol ac osgoi dyblygu argymhellion<br>▪ Rhannu Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol eraill<br>▪ Trin a thrafod yr holl argymhellion cenedlaethol perthnasol a'u cynnwys yn ein Cynlluniau Gweithredu rhanbarthol<br>▪ Ymgysylltu mewn fforymau cenedlaethol, cwblhau diweddariadau o ran cynlluniau gweithredu rhanbarthol yn ôl yr angen a rhannu'r holl wybodaeth ddysgu berthnasol gyda'n rhanddeiliaid allweddol<br>▪ Sicrhau bod cydberthynas uniongyrchol rhwng canlyniadau dysgu a Chynllun Hyfforddi Blynyddol y Bwrdd<br>▪ Parhau i gyfrannu at Ganllawiau Arferion Cymru Gyfan a darparu argymhellion ar gyfer gwelliannau yn sgil dysgu lle bo'n briodol | dysgu drwy ddarparu adnoddau hyfforddi a sesiynau hyfforddi, amlasiantaeth<br>▪ Darparu Bwletinau Diogelu rheolaidd<br>▪ Parhau i gymeradwyo defnyddio Sesiynau Gwybodaeth 7 Munud |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | Mae'n ofynnol i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn darparu cyfleoedd cyfathrebu cadarnhaol i weithwyr | **Byddwn ni'n:**<br>▪ Ystyried sut mae defnyddio ystod o ddulliau i gyfathrebu ac ymgysylltu â'n staff a'r cyhoedd ac i rannu dysgu, yn y modd gorau, a gwreiddio'r rhain mewn | **Byddwn ni'n:**<br>▪ Defnyddio Grŵp Ymgysylltu, Dysgu a Chyfathrebu'r Bwrdd i atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | proffesiynol a'n cymunedau ehangach.<br><br>Eleni, bydd y Bwrdd yn adolygu'r modd mae'n cyfathrebu ar hyd ystod ei weithlu rhanddeiliaid a gyda defnyddwyr ein gwasanaeth a gyda chymunedau. Bydd y Bwrdd Diogelu yn creu Strategaeth Gyfathrebu; ynddi bydd manylion ynghylch y conglfeini cyfathrebu sydd ar gael i bob grŵp. Bydd yn fodel mwy cydlynol at ddibenion atgyfnerthu gwell cyfathrebu yn ystod 2026/27. | Strategaeth Gyfathrebu, sydd wedi'i hadolygu ac sy'n eglur.<br>▪ Adolygu Datganiad Cenhadaeth y Bwrdd er mwyn gofalu ei fod yn gyfredol o hyd ac yn unol â'r Strategaeth Gyfathrebu newydd.<br>▪ Gweithio i ddatblygu cynllun cyson a chadarn ar gyfer casglu lleisiau plant, pobl ifainc ac oedolion, yn effeithiol, a thrwy fodel cynaliadwy o gyfranogiad yng ngwaith y Bwrdd.<br>▪ Parhau i ddatblygu/hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd sy'n cael eu harwain gan y Bwrdd ac asiantaethau eraill.<br>▪ Cyflwyno / datblygu model cynaliadwy ar gyfer sesiynau gwybodaeth staff a sesiynau dysgu byr ac adfer ein Bwletinau Diogelu chwarterol.<br>▪ Ceisio cynyddu ein cysylltiad â sefydliadau anstatudol y byddai modd iddyn nhw, o bosibl, fod yn gymorth gwell o ran ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddefnyddio "dylanwadwyr" priodol a chodi ymwybyddiaeth ynghylch diogelu.<br>▪ Defnyddio gwefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf ar gyfer diweddariadau gwybodaeth ond chwilio am gyfleoedd eraill o ran cyfryngau rhannu gwybodaeth, effeithiol, y byddai modd iddyn nhw o bosibl gynhyrchu lefelau defnyddio, uwch, ymhlith y cyhoedd. | blaenoriaethau yma ac adrodd ar ganlyniadau a chynnydd<br>▪ Cyflawni Strategaeth Gyfathrebu'r Bwrdd<br>▪ Nodi "dylanwadwyr" priodol, a'u cael yn rhan o bethau, a dylunio a chyflwyno cynnwys ymwybyddiaeth ynghylch diogelu gyda nhw<br>▪ Bydd Strategaeth Cyfranogiad Defnyddwyr gynaliadwy ac effeithiol wedi'i chwblhau ar gyfer y Bwrdd |

| THEMA 3: DATBLYGU FFRYDIAU GWAITH EFFEITHIOL – rydym yn cytuno ar sut mae modd i ni'r Bwrdd ddatblygu er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Cyd-destun** | **Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud?** | **Sut byddwn ni'n mesur cynnydd?** |
| **Ffrwd Waith Lleihau Niwed** | Er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, mae'r Bwrdd yn atgyfnerthu nifer o flaenoriaethau gwaith mewn cydweithrediad ag ystod eang o bartneriaid.<br><br>Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith ar faterion atal camfanteisio ac ar leihau trais difrifol yn ein cymunedau.<br><br>Bydd y Bwrdd yn parhau i weithio ar y cyd i atal niwed. Byddwn yn ceisio datblygu ffocws gwell ar ymyrraeth gynnar a gweithgarwch ataliol sy'n targedu lleihau'r risg o niwed yn ein cymunedau, yn weithredol felly. | **Fe Wnawn Ni:**<br>▪ Parhau i symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Materion Atal Camfanteisio Ranbarthol, a hynny i'w hail gam, sef bod yn gymorth i oedolion a phlant sydd mewn perygl o fod yn ddioddefwyr camfanteisio.<br>▪ Sicrhau, yn ystod Cyfnod 2 rhoi ein Strategaeth Materion Atal Camfanteisio ar waith, ein bod ni'n ystyried y cymorth y mae ar bobl 18-25 oed ei angen at ddibenion gofalu bod gyda nhw brofiad cadarnhaol o bontio i fod yn oedolion, yn sgil hyn bydd wynebu risg o gamfanteisio ym mhob ffurf, yn cael ei leihau.<br>▪ Ceisio gwell cysylltu â'r sawl sydd â phrofiad bywyd o gamfanteisio er mwyn gwella ein hymatebion diogelu a deall sut y mae modd i ni rymuso dioddefwyr yn well. | ▪ Cytuno ar ddangosfwrdd materion camfanteisio / dangosyddion perfformiad allweddol y bydd modd i ni eu nodi, meintioli, a, mesur camfanteisio yn y rhanbarth yn eu herbyn.<br>▪ Bydd yr is-grŵp Strategol Materion Camfanteisio yn gweithio gyda grŵp Ymgysylltu, Dysgu a Chyfathrebu'r Bwrdd er mwyn ceisio cyfranogiad gan y rhai sydd â phrofiad bywyd, mewn modd creiddiol; bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i greu gwelliannau pellach i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Deall yn llawn beth yw'n dewisiadau o ran asiantaethau partner, a bod yn gymorth iddyn nhw, er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i darfu ar droseddwyr camfanteisio.<br><br>▪ Gofalu ein bod yn cydweithio'n effeithiol â'n partneriaethau rhanbarthol eraill e.e. Partneriaeth Cymunedau Diogel a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn darparu dull cydlynol a chydweithredol o leihau trais yn ein cymunedau.<br>▪ Gweithio'n effeithiol gyda'r partneriaethau yma er mwyn atgyfnerthu ymateb cwbl gydlynol, a, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol ynghylch blaenoriaethau cyffredin gan gynnwys materion radicaleiddio, troseddau cyfundrefnol a gweithgarwch llinellau cyffuriau.<br><br>▪ Blaenoriaethu ymwybyddiaeth ynghylch cam-drin plant yn rhywiol mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn ein cymunedau. Bod yn gymorth o ran cyflwyno Sioeau Teithiol Cenedlaethol Cymru Gyfan ynghylch Cam-drin Plant yn Rhywiol | wasanaethau a chymorth.<br><br>▪ Mae'r is-grŵp Strategol am fod yn gymorth o ran rhoi atodiad ynghlwm i'r Strategaeth gyfredol; yn yr atodiad dan sylw bydd manylion ynghylch y gweithgareddau tarfu, sydd ar gael i asiantaethau.<br><br>▪ Bydd y Bwrdd wedi'i integreiddio'n llawn â'r Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rhanbarthol, ac yn cyfrannu'n weithredol at ffrydiau gwaith diogelu ac atal trais, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Bwrdd yn ymrwymo i flaenoriaeth barhaus o godi gwell ymwybyddiaeth ynghylch seiberdroseddu yn ein cymunedau. | mewn partneriaeth â'r ganolfan Centre of Expertise on Child Sexual Abuse fis Medi 2026.<br>▪ Ceisio gwella'r broses o nodi'r sawl sydd mewn perygl o fod yn ddioddefwyr cam-drin a cham-fanteisio rhywiol a gwella ein hymateb iddyn nhw.<br>▪ Trin a thrafod y modd rydyn ni'n casglu data ar hyn o bryd a sut mae modd i ni fwrw ymlaen â gwelliannau i'n setiau data rhanbarthol.<br>▪ Datblygu ein gallu i ddefnyddio data, mewn modd gwell, er mwyn diogelu rhag niwed, ac, atal niwed rhag digwydd.<br>▪ Datblygu ein capasiti o ran gwella rhannu data â'n hystod o bartneriaid; mae hyn at ddibenion gwella effeithiolrwydd diogelu gan ddysgu o argymhellion, archwiliadau a chynlluniau gwella ein Hadolygiadau Diogelu Unedig Sengl.<br>Bydd hyn yn gymorth i'r Bwrdd gael gwell dealltwriaeth ynghylch canlyniadau cyflawniad o ran diogelu, yn sgil hyn bydd modd iddo nodi materion diogelu yn y rhanbarth ac ymateb iddyn nhw, yn fwy effeithiol. | trosfwaol, sy'n gweithredu yn y rhanbarth.<br>▪ Monitro Cynllun Cyflawni Yr Asiantaeth Gofal Plant ac Adolygiadau Cenedlaethol Yr Asiantaeth Gofal Plant eraill gan sicrhau bod blaenoriaethau ac argymhellion perthnasol yn cael eu hadlewyrchu yn Strategaeth Materion Atal Camfanteisio a chynlluniau gwaith cyflawni'r Bwrdd ei hun.<br>▪ Bydd y Bwrdd yn trin a thrafod opsiynau o ran cyflawni'r flaenoriaeth yma gan gynnwys yr angen am unrhyw rôl neu adnodd gweithlu arbenigol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Parhau â'n gwaith mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill mewn perthynas ag atal hunanladdiad a hunan-niweidio yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol a'r Cynllun Cyflawni<br><br>[Atal hunanladdiad a hunan-niweidio: strategaeth a chynllun cyflawni \| LLYW.CYMRU] | ▪ Atgyfnerthu codi ymwybyddiaeth mewn modd effeithiol, a hynny o ran y gweithlu a'n cymunedau.<br><br>▪ Adolygu rôl y Grŵp Adolygu Atal Hunanladdiad rhanbarthol a'r Grwpiau Ymateb Ar Unwaith. | ▪ Trin a thrafod model / offeryn rhannu data amlasiantaeth gwell, a cheisio ymrwymiad o ran cytuno i roi hynny ar waith, h.y Olrheiniwr Diogelu Amlasiantaeth LIC.<br><br>▪ Bydd adnoddau gwybodaeth ynghylch peryglon seiberdroseddu yn cael eu nodi, eu hyrwyddo a'u rhannu'n effeithiol.<br><br>▪ Bydd y Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gwblhau'r adolygiad. |
| **Proses Adolygiad** | Parhau i gyflawni Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl. Defnyddio'r rhain i wneud | Mae'r Bwrdd a'i asiantaethau partner yn parhau i atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl ledled y rhanbarth. | Bydd diweddariadau o ran yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn cael eu darparu ar gyfer |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Diogelu Unedig Sengl** | gwelliannau i'r modd mae arfer yn cael ei gyflenwi ar hyd ystod ein prif asiantaethau diogelu ac i helpu o ran ysgogi'r gwaith o ddatblygu ymyriadau cymorth cynnar ac atal, a'u gwella. | Byddwn yn parhau i wneud cynnydd o ran monitro a goruchwylio argymhellion adolygiadau, diweddariadau arfer a dysgu sydd wedi'i gael o adolygiadau rhanbarthol a chenedlaethol, a goruchwylio hyn.<br><br>Byddwn yn defnyddio Cronfa Diogelu Cymru i lywio datblygiadau arfer da o ran diogelu ledled y rhanbarth.<br><br>Bydd y Bwrdd yn trin a thrafod canfyddiadau adolygiad blwyddyn 1 Llywodraeth Cymru o ran yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ac yn ymrwymo i barhau i gydweithio o ran y rhain, a gydag amrywiaeth o randdeiliaid y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion angenrheidiol. | cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd.<br><br>Bydd Cynlluniau Gweithredu o ran Plant ac Oedolion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru drwy grŵp Cyflawni – Gwella Arfer, y Bwrdd, ac yn cael eu cyflwyno i Hwb Cydgysylltu Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd y Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd partneriaeth yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill at ddibenion cyfrannu at atgyfnerthu diweddariadau o ran cynnydd a gwelliannau i'r fframwaith Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl. |
| **Cysondeb yn y Rhanbarth** | Mae yn rhanbarth Cwm Taf Morganwg dair ardal awdurdod lleol sy'n gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol rhanbarthol a Heddlu De Cymru yn ogystal ag amrywiaeth o | Drwy gydol 2026/27, byddwn ni'n ceisio parhau â'n dull cydweithredol o ran ymdrin â blaenoriaethau'r Bwrdd ar hyd ystod ein 3 Awdurdod Lleol ac mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol eraill. | Gofalu bod amrywiaeth o gynrychiolwyr rhanbarthol o blith holl asiantaethau'r Bwrdd yn rhan o is-strwythur ac is-grwpiau'r Bwrdd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | randdeiliaid allweddol eraill. O ran y rhanbarth, mae'r Bwrdd yn ymrwymo i sicrhau cysondeb yn y modd rydyn ni'n cyflawni ein cyfrifoldebau diogelu. | Ein nod fydd cydweithio’n well o ran ein canlyniadau dysgu a byddwn ni'r Bwrdd yn gofalu bod ein cynlluniau gweithredu gwella rhanbarthol yn cael eu diweddaru a'u datblygu.<br><br>Mae'r Bwrdd yn atgyfnerthu hyfforddiant amlasiantaeth ar gyfer ei randdeiliaid, ac yn ei gomisiynu; mae hyn at ddibenion bod yn gymorth i'r gweithlu rhanbarthol a chreu cyfleoedd i ddysgu ar y cyd a gan ein gilydd / gyda'n gilydd. Hoffai'r Bwrdd ddatblygu dull pellach, gwell, eleni gan gynyddu'r cyfleoedd i'w ymarferwyr amlasiantaeth rhanbarthol ddarparu hyfforddiant.<br><br>Byddwn yn mynd ati i wreiddio Hwb Amlasiantaeth Cwm Taf yn ei gartref newydd ar safle Tŷ Trevithick Heddlu De Cymru gan annog cydweithio cadarnhaol parhaus.<br><br>Byddwn yn atgyfnerthu protocol gweithredu, fframwaith dangosyddion perfformiad allweddol a mesurau canlyniadau data, cyson, ledled safleoedd Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf. | Bydd grŵp Cyflawni – Gwella Arfer, y Bwrdd, yn monitro canlyniadau dysgu ac yn eu hadolygu ac yn rhoi gwybod i'r Grŵp Cynllunio Strategol ynghylch cynnydd.<br><br>Bydd grŵp Ymgysylltu, Dysgu a Chyfathrebu’r Bwrdd yn atgyfnerthu'r dull yma ac yn cytuno ar gamau gweithredu o ran symud ymlaen mewn partneriaeth â'n Carfanau Datblygu Gweithluoedd Gofal Cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill.<br><br>Bydd Grŵp Rheoli Arian Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yn atgyfnerthu proses bontio Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.<br><br>Bydd Rheolwr Busnes y Bwrdd a Chydlynwyr rhanbarthol yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth, mewn partneriaeth ag asiantaethau Bwrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Diogelu Cwm Taf yn creu ac yn cyflwyno Gweithdrefn Weithredu Safonol a fframwaith wedi'u diweddaru a fydd yn cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Gweithredol yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth. |

## 4. Â PHWY YDYN NI'N BWRIADU CYDWEITHIO I GYFLAWNI EIN BLAENORIAETHAU A'N HAMCANION?

Mae cydweithio'n effeithiol â phartneriaethau ac asiantaethau eraill, boed hynny ar sail ranbarthol neu genedlaethol, yn allweddol i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd yn effeithiol.

| Gyda phwy y byddwn ni'n cydweithio? | Meysydd cydweithio |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | ▪ Polisïau a deddfwriaeth mewn perthynas â diogelu<br>▪ Cydweithio o ran y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, a'i hadolygu<br>▪ Datblygu Canllawiau Arfer<br>▪ Cyfarfodydd bob chwarter i Reolwyr Busnes a Chadeiryddion<br>▪ Cyfleoedd ariannu er mwyn atgyfnerthu / datblygu gweithgareddau diogelu |
| **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** | ▪ Ceisio cyngor ar faterion diogelu rhanbarthol a chenedlaethol<br>▪ Gweithio ar y cyd i wella canlyniadau diogelu |
| **Trydydd Sector** | ▪ Mynd ati'n weithredol i'w annog i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol<br>▪ Gweithio mewn partneriaeth i gynyddu cyfranogiad o ran pobl sydd â phrofiad bywyd, a defnyddwyr y gwasanaeth ym mlaenoriaethau gwaith y Bwrdd |

| | |
|---|---|
| **Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill** | ▪ Polisïau a gweithdrefnau cyson ledled Cymru<br>▪ Rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu ac arfer gorau |
| **Partneriaethau Cymunedau Diogel** | ▪ Camfanteisio<br>▪ Adolygiad Diogelu Unedig Sengl<br>▪ Trais Domestig<br>▪ Atal Trais |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** | ▪ Plant, pobl ifainc ac oedolion i gymryd rhan |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** | ▪ Gweithio gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru a gloywi'r Cynllun Lles<br>▪ Cyfleu camau gweithredu, gweithgareddau ac unrhyw heriau blaenoriaeth |
| **Uned Atal Trais Cymru** | ▪ Cynnydd mewn troseddau treisgar<br>▪ Fframwaith ar gyfer Atal Trais, wedi'i gysylltu â Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc a Chamfanteisio<br>▪ Dyletswydd o ran Trais Difrifol<br>▪ Adolygiadau ynghylch Arfau Ymosodol |

## 5. EIN CYLLIDEB AR GYFER 2026-27

Mae cyllideb y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn yn cael ei ariannu gan gyfraniadau ariannol yr asiantaethau partner statudol. Bydd y gyllideb yn galluogi'r Bwrdd i gyflawni deilliannau ei flaenoriaethau fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Blynyddol yma. Bydd yn cael ei dyrannu fel a ganlyn:

Costau Cymorth Uned Rheoli Busnes a'r Gynhadledd Amlasiantaeth
Asesu Risg £463,786

Gwariant Cyffredinol: £70,287

## Oes Gyda Chi Bryderon am Rywun?

Os ydych chi'n amau bod **plentyn neu berson ifanc** yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei chymryd o ddifrif. Cysylltwch â'ch Tîm Diogelu lleol ar y rhifau isod:

Yn Rhondda Cynon Taf: 01443 425006
Ym Merthyr Tudful: 01685 725000
Ym Mhen-y-bont ar Ogwr: 01656 642320

Oriau Agor:
Llun – Iau: 8.30am – 5pm
Gwener: 8.30am – 4.30pm

Os ydych chi'n amau bod **oedolyn** yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon ynghylch oedolion sy'n agored i niwed yn wynebu perygl yn cael ei thrin o ddifrif. Cysylltwch â'ch Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Yn Rhondda Cynon Taf: 01443 425003
Ym Merthyr Tudful: 01685 725000
Ym Mhen-y-bont ar Ogwr: 01656 642477

Oriau Agor:
Llun – Iau: 8.30am – 5pm
Gwener: 8.30am – 4.30pm

I gysylltu â'r Gwasanaethau i Blant neu'r Gwasanaethau i Oedolion y tu allan i oriau'r swyddfa, dros y penwythnos ac ar wyliau banc, ffoniwch Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau Cwm Taf Morgannwg ar 01443 743665 neu 01443 657225.

**Os ydych chi'n amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 a siarad â'r Heddlu.**

**Mae rhagor o wybodaeth am sut i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â phlentyn neu oedolyn sydd wynebu perygl ar gael yma:**

**Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:**
**Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf** Rhoi gwybod am Achos Amddiffyn Plant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
**Gwasanaethau i Oedolion Rhondda Cynon Taf** Rhoi gwybod am rywun sydd mewn perygl | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr**
**Pen-y-bont ar Ogwr – Plant:** Amddiffyn plant
**Pen-y-bont ar Ogwr – Oedolion:** Diogelu oedolion sydd mewn perygl

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:**

**Gwasanaethau i Blant Merthyr Tudful** Sut i riportio plentyn/person ifanc y credwch sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu'i esgeuluso neu sydd eisoes yn profi hynny | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
**Gwasanaethau i Oedolion Merthyr Tudful** Oedolion mewn Perygl o Gam-drin neu Esgeulustod | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Os ydych chi eisiau rhoi gwybod am ddigwyddiad lle does dim angen ymateb ar frys, neu os oes ymholiad cyffredinol gyda chi, ffoniwch 101, sef rhif ffôn 24 awr yr heddlu ar gyfer achosion sydd ddim yn rhai brys. ***Ffoniwch 101 pan fydd y digwyddiad yn llai difrifol.***

**Cofiwch – mae diogelu pobl yn fater i bawb!**

**I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ewch i:** Amdanom Ni | Diogelu, Cwm Taf Morgannwg

# ATODIAD 1 – AELODAU'R BWRDD

| TEITL | ASIANTAETH: |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cadeirydd)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Is-gadeirydd)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cadeirydd y Grŵp Cynllunio Strategol)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Pennaeth Diogelu Oedolion** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Pennaeth Cymorth Cynnar a Diogelu (Plant) (Cadeirydd Adolygu: Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, a'r, Grŵp Trafodaeth Cynllun Ar Unwaith)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant (Cadeirydd y Grŵp Strategol ar Faterion Atal Camfanteisio)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Gofal yn y Gymuned a Phlant** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Cyfarwyddwr y Carchar** | Carchar Ei Fawrhydi Y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth Diogelu** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **Meddyg a enwyd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **Pennaeth y Gwasanaeth** | Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf |

| | |
|---|---|
| **Pennaeth y Gwasanaeth** | Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Arweinydd a enwyd ar gyfer Diogelu** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Nyrs Ddynodedig (Carfan Diogelu Cenedlaethol)** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Pennaeth y Gwasanaeth Prawf** | Y Gwasanaeth Prawf |
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Pennaeth y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Prif Reolwr Diogelu** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Pennaeth y Gwasanaethau i Blant** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Pennaeth y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth Addysg a Gwasanaethau i Deuluoedd** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Rheolwr Grŵp** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth y Gwasanaethau Diogelu Oedolion ac Eiddo Diogel** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Uwch-arolygydd** | Heddlu De Cymru |
| **Pennaeth Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed** | Heddlu De Cymru |

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion** | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **Aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| **Swyddog Arweiniol Diogelu** | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |

# ATODIAD 2 – STRWYTHUR Y BWRDD

